**EISTEDDFOD - Gŵyl Gymru Gogledd America 2023 – Lincoln, NE**
**Cystadleuaeth: LLEFARU CYMRAEG (Welsh Language Recitation)**

*Y Pethau Bychain* – gan Eurig Salisbury*

Mae'n dywydd gwamal, Dewi,
Mae'r byd yn araf boethi,
I ble'r af innau rhag y glaw
Pan ddaw hi'n amser boddi?

*Ni wn a fydd yfory*
*Ai glaw ai hindda'n twnnu,*
*Ond does dim drwg mewn llenwi myrdd*
*O fagiau gwyrdd ailgylchu.*

Mae'r iaith yn marw, Dewi,
Be' wna' i rhag ei threngi?
Er pob rhyw ddeddf neu ddadl, wir,
Fe gollodd dir eleni.

*Mesurau iaith y gwleidydd*
*Heb sgwrs a chlonc a dderfydd,*
*Rhaid ei harfer i'w hadfer hi,*
*Siarada di hi beunydd.*

Ond Dewi, mae mor dywyll
Ym myd y gwalch a'r cudyll,
Pa iws rhoi coel ar obaith 'to
Tra bo rhyfeloedd erchyll?

*Er dued y gorwelion*
*Mae haul ar eu hymylon,*
*Does dim i'w ennill o din-droi*
*A chnoi ar wae'n ddigalon.*

*Tra'r tyle, tra'r golomen,*
*Tra'r genedl a'r genhinen,*
*Cedwch yn daer o ddydd i ddydd*
*Eich ffydd, a byddwch lawen.*

** - Composed for a St. David's Day broadcast of "Dechrau Canu Dechrau Canmol" on S4C, Feb. 26, 2017.*

***Note:*** *This copy is only to be used in conjunction with the 2023 NAFOW Eisteddfod.*